Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Maes Y Rhyddid**

**Ffordd Hafod**
**Pontypridd**
**CF37 2PF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Maes Y Rhyddid

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Values in Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Rhagfyr 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn Maes y Rhyddid. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel. Mae'r gofal a'r cymorth yn garedig, yn hamddenol ac yn dosturiol. Mae'r staff gofal yn meddu ar wybodaeth gyfredol fanwl am anghenion y bobl. Caiff y bobl eu cefnogi i gael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir. Mae'r gwasanaeth yn rhoi mesurau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth a niwed. Mae mesurau rheoli heintiau yn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo ffynonellau heintiau posibl. Mae systemau ar waith i hyrwyddo'r broses o reoli a storio meddyginiaeth yn ddiogel. Mae gan y gwasanaeth drefniadau llywodraethu, arfarnu, a sicrhau ansawdd trylwyr ar waith. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r mesurau recriwtio cywir ac yn helpu'r staff i sicrhau eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol. Mae'r staff gofal yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth dda i'r cyhoedd.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn Maes y Rhyddid. Mae'r cynlluniau personol yn nodi anghenion a dewisiadau'r bobl, yn ogystal â sut yr hoffent gael eu cefnogi i gael profiadau cadarnhaol. Mae'r asesiadau risg yn hyrwyddo diogelwch y bobl. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda ac yn gallu adnabod newidiadau i'w hanghenion. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau a mynd allan i'r gymuned. Mae'r staff gofal yn defnyddio technegau amrywiol i gefnogi anghenion cyfathrebu penodol y bobl, sy'n hyrwyddo cynhwysiant ac o fudd i'w llesiant. Mae'r gwasanaeth yn gwneud hyn yn arbennig o dda ac mae'n ffodus bod rhai aelodau o'r staff gofal yn defnyddio'r un prif ddulliau cyfathrebu â rhai o'r bobl. Pan fydd angen cymorth ar berson i godi ei lais, bydd ei deulu neu ei gynrychiolwyr yn cael cymorth i wneud hyn, er enghraifft drwy fod yn rhan o'r broses o adolygu'r cynlluniau personol. Mae'r gwasanaeth yn ystyried gallu'r bobl i wneud penderfyniadau yn dda iawn ac yn sicrhau y caiff y prosesau cywir eu dilyn pan na fydd pobl yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl drwy gael y gofal cywir ar yr adeg gywir. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol i roi gwybod am unrhyw bryderon a nodir ac mae'n dilyn y canllawiau priodol. Caiff y bobl eu cefnogi i fynd i apwyntiadau iechyd arferol. Mae'r prydau bwyd yn gytbwys a chaiff dewisiadau iach eu hyrwyddo, a chaiff y bobl eu cynnwys yn y broses o ddewis prydau. Mae gan y cartref fesurau rheoli heintiau priodol ar waith sy'n unol â'i bolisi. Mae prosesau ar waith i reoli meddyginiaeth y bobl a sicrhau eu bod yn cael meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn unol â'r cyfarwyddiadau.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel. Cartref wedi'i addasu yw Maes y Rhyddid i bobl sydd ag anabledd dysgu ac anghenion cysylltiedig. Mae wedi'i leoli mewn ardal rannol wledig, sy'n amgylcheddol ddiogel. Mae'r ystafelloedd gwely yn gyfforddus ac wedi'u personoli, ac mae ardaloedd cymunedol ac ystafelloedd ymolchi ar gael i'r bobl, yn ogystal ag ardal awyr agored ddeniadol. Mae'r cartref yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi mesurau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth a niwed. Mae'r cartref yn ddiogel a dim ond unigolion ag awdurdod all fynd i mewn. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cefnogi arferion da ac yn helpu'r staff i roi gwybod am bryderon diogelu. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau o ran gweithdrefnau diogelu ac yn dweud wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus y byddai'r rheolwr yn ymateb pe baent yn codi unrhyw fater. Mae'r gwiriadau cyn recriwtio ar gyfer staff gofal yn gywir ac mae sesiynau goruchwylio rheolaidd yn cefnogi datblygiad parhaus. Mae hyfforddiant parhaus yn helpu'r staff i gynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth. Caiff digwyddiadau a damweiniau eu cofnodi, a chymerir camau priodol. Mae'r gwasanaeth yn nodi risgiau posibl i'r bobl neu'r staff, a sut i'w rheoli. Mae'r archwiliadau sicrhau ansawdd parhaus yn

gwneud yn siŵr bod y systemau yn parhau'n effeithiol ac y caiff gwelliannau eu nodi a'u hystyried.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gofal a'r cymorth yn garedig, yn hamddenol ac yn dosturiol yn Maes y Rhyddid. Roedd y bobl yn ymddangos fel pe baent yn cael gofal da a'u bod wedi setlo yn eu hamgylchedd ar y cyfan. Dywedodd teuluoedd y bobl wrthym eu bod wedi gweld gwelliannau yn y gwasanaeth ers i'r rheolwr newydd ddechrau, "*some of the staff really care - you can tell*" a "*some staff are very good at responding to their needs*". Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda a gwnaethant rannu gwybodaeth fanwl â ni am eu hanghenion, a oedd yn cyfateb i'r wybodaeth yn ffeiliau gofal y bobl.

Mae'r staff gofal yn meddu ar wybodaeth gyfredol fanwl am anghenion y bobl. Mae'r gwasanaeth yn ystyried amrywiaeth eang o wybodaeth cyn i'r bobl symud i fyw yno. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda theuluoedd y bobl a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn sicrhau bod ganddo'r wybodaeth gywir. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau, ac maent yn adlewyrchu anghenion y bobl. Mae'r asesiadau risg yn nodi anghenion penodol y bobl a strategaethau i'r staff o ran y ffordd orau o gefnogi'r rhain. Mae'r cofnodion dyddiol a'r siartiau monitro ategol manwl yn rhoi gwybodaeth bwysig am gynnydd y bobl ac yn nodi newidiadau i'w hanghenion gofal. Caiff adolygiadau rheolaidd eu cynnal, sy'n cynnwys cynrychiolwyr y bobl pan na fydd y person yn gallu cymryd rhan. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau defnyddio system gyfrifiadurol i ddogfennu profiadau'r bobl, er mwyn helpu i lywio adolygiadau. Mae'r ffeiliau gofal yn cynnwys asesiadau a chanllawiau gan weithwyr proffesiynol eraill, fel nyrsys anableddau dysgu a seiciatryddion. Caiff atgyfeiriadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu gwneud pan na fydd gan y bobl alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u llety.

Mae mesurau rheoli heintiau ar waith, sy'n helpu i leihau'r risg o drosglwyddo ffynonellau heintiau posibl. Mae cyflenwad o Gyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff. Mae polisi rheoli heintiau ar waith ac mae'r staff yn ymwybodol ohono ac yn deall eu cyfrifoldebau. Mae'r staff gofal yn defnyddio rota glanhau i'w cyfarwyddo i lanhau'r cartref bob dydd. Mae'r arferion golchi dillad yn helpu i leihau'r risg o haint. Mae'r cartref yn ymddangos yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae systemau ar waith i hyrwyddo'r broses o reoli a storio meddyginiaeth yn ddiogel. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel a dim ond staff gofal awdurdodedig all gael gafael arnynt. Mae staff gofal hyfforddedig yn rhoi meddyginiaeth yn unol â chyfarwyddiadau'r rhagnodwr, a chedwir cofnodion cywir. Mae gan y gwasanaeth bolisi meddyginiaeth gyfredol ar waith. Caiff meddyginiaeth ei harchwilio'n rheolaidd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi mewn amgylchedd glân a diogel. Tŷ wedi'i addasu deulawr yw Maes y Rhyddid a all roi llety i bedwar person, a cheir anecs ychwanegol sy'n cefnogi un arall. Mae’r gwasanaeth wedi’i leoli ar gyrion Pontypridd. Mae'r gwasanaeth yn lân, yn daclus, ac mewn ardal rannol wledig sy'n amgylcheddol ddiogel. Mae ystafelloedd gwely'r bobl o faint cyfforddus ac maent wedi'u personoli'n unol â'u chwaeth bersonol. Mae digon o gyfleusterau toiled ac ymolchi ar gael, gyda rhai cyfleusterau ensuite. Mae'r cartref yn cynnwys dwy ardal lolfa lle y gall y bobl dreulio eu hamser. Mae'r ardaloedd cymunedol yn lân ac yn daclus. Mae cyfleusterau'r gegin yn briodol i'r cartref, wedi'u haddurno'n dda ac wedi ennill Sgôr Hylendid Bwyd o 5, sy'n golygu eu bod yn 'dda iawn'. Maent yn galluogi'r bobl i gymryd rhan yn y broses o baratoi prydau bwyd gyda chymorth os oes angen. Ceir hefyd fwrdd cinio lle y gall y bobl fwyta eu bwyd. Mae gan y gwasanaeth ardd fawr a deniadol i'r bobl ei defnyddio, sy'n cynnwys cyfarpar fel siglen a thrampolîn.

Yn gyffredinol, mae amgylchedd y cartref yn ddiogel. Nid oes unrhyw annibendod na rhwystrau wrth yr allanfeydd tân. Nid oes unrhyw beryglon baglu amlwg. Mae'r dyletswyddau glanhau dyddiol yn cael eu cyflawni. Mae cyfyngwyr wedi'u gosod ar y ffenestri ym mhob un o'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi a welsom. Mae trefniadau priodol ar waith i gynnal a chadw'r adeilad. Cadarnhaodd y rheolwr fod gwaith wedi'i drefnu i gynnal a chadw ac adnewyddu rhai rhannau o'r gwasanaeth. Mae'r cofnodion cynnal a chadw yn cadarnhau y caiff profion ar gyfleustodau, fel eitemau trydanol a chyfleusterau dŵr, eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r gwaith o archwilio a gwasanaethu'r cyfarpar yn gyfredol, ac mae'r profion diogelwch tân a'r ymarferion tân wedi cael eu cwblhau. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad ar waith ac yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y gwasanaeth drefniadau llywodraethu, arfarnu, a sicrhau ansawdd trylwyr ar waith. Mae'r rhain yn helpu'r tîm rheoli i hunanwerthuso a nodi meysydd i'w gwella. Mae'r rheolwr a benodwyd yn ddiweddar yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol. Mae'n ymddangos yn frwdfrydig ac yn angerddol dros y rôl, ac mae'r adborth gan y staff gofal yn gadarnhaol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyflawni ei rôl yn effeithiol ac yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda, gan ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis er mwyn cwrdd â'r bobl a'r staff, a chwblhau adolygiadau o ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn rhoi canllawiau i'r staff gofal o ran eu rolau a'r cyfrifoldebau. Mae'r staff gofal yn deall eu rolau mewn perthynas â meysydd gofal allweddol, fel diogelu a rheoli heintiau. Mae'r gwasanaeth yn casglu safbwyntiau'r bobl, eu cynrychiolwyr, a'r staff gofal. Mae gweithdrefnau ar waith i ddelio â chwynion, ac mae'r gwasanaeth yn gweithredu arnynt. Mae'r gwasanaeth yn agored ac yn dryloyw, gan wneud yr hysbysiadau sy'n rhaid eu gwneud yn gyfreithiol i AGC am ddigwyddiadau yn y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel a'u bod wedi eu hyfforddi'n addas. Mae ffeiliau'r staff gofal yn cynnwys yr holl wybodaeth recriwtio ofynnol, fel tystiolaeth o'u hunaniaeth a geirdaon cyflogaeth. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru, ac mae aelodau newydd o staff gofal yn cwblhau cyfnod sefydlu cyn dechrau gweithio. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant cyfredol mewn meysydd gofal craidd. Mae hyfforddiant ychwanegol ar gyfer meysydd arbenigol sy'n berthnasol i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth hefyd ar waith, fel rheoli epilepsi a Chefnogi Ymddygiad Cadarnhaol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o hyfforddiant a'u bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Mae'r staff gofal yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl. Gwnaethant ddweud wrthym "*I love it here*", "*I love coming to work*, "*I enjoy it*", a bod y rheolwr "*has been wonderful*", "*responsive*", a "*deals with issues that need dealing with*". Ceir cymysgedd o staff newydd a mwy profiadol, ac mae'r tîm o staff bron yn llawn. Dywedodd y staff gofal wrthym fod diwylliant cadarnhaol o fod eisiau dysgu a datblygu yn y gwasanaeth, a bod y staff mwy profiadol yn gefnogol. Caiff y staff gofal sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol. Cyfrifir lefelau staffio ar sail anghenion y bobl a chytundebau â chyrff comisiynu. Roedd y rota'n dangos bod y lefelau staffio targed yn adlewyrchu'r lefelau staffio ar y diwrnod. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo bod digon o staff yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae gan y gwasanaeth amrywiaeth o fentrau i gefnogi lles y staff, fel fforymau gweithiwr cymorth a mynediad at adnoddau i gefnogi eu llesiant meddyliol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth dda i'r cyhoedd. Mae'r Datganiad o Ddiben yn nodi nodau a gwerthoedd y gwasanaeth a'r cymorth a roddir, a chaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae canllaw ysgrifenedig manwl yn cynnwys gwybodaeth ymarferol fanwl am y gwasanaeth a'r gofal a roddir.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/07/2024